**Bwrdd Pensiwn RhCT - CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Llun, 15 Tachwedd 2021 am 10.00am.

**Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -**

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Ms Sindy Absalom – Cynrychiolydd yr Aelodau
Rob Whiles - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
David Francis - Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd Pensiynau a Rheoli’r Trysorlys
Mrs S Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau
Mr Timothy Jenkins - Uwch Reolwr y Garfan – Materion Digidol, Cyfathrebu a Llywodraethu

**12 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelod newydd, Ms Sindy Absalom, i'w chyfarfod cyntaf o Fwrdd Pensiwn RhCT. Gofynnwyd i bawb gyflwyno'u hunain a dywedodd y Cadeirydd y bydd unrhyw gyngor a chymorth sydd ei angen ar Ms Absalom yn cael eu darparu iddi.

**13 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i atgoffa'r Aelodau o bwysigrwydd cyfrinachedd.

**14 COFNODION CYFARFOD BWRDD PENSIWN RHCT A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT a gafodd ei gynnal ar 9 Awst 2021 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

**15 MATERION SY'N CODI**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y diweddariadau canlynol, sy’n deillio o gofnodion y cyfarfod ym mis Ebrill 2021, i’r Aelodau:

- Tudalen 3: Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod trafodaethau mewn perthynas â'r Oedran Pensiwn uwch yn parhau.
- Tudalen 4: Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r

Trysorlys fod y polisi unigryw sy'n ymwneud â Phartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei lunio ar hyn o bryd.

- Tudalen 5: Cafodd yr Aelodau wybod y cafodd y gronfa marchnadoedd sy’n dod i’r amlwg ei lansio ym mis Hydref 2021, fodd bynnag, dydy RhCT ddim yn rhan o’r gronfa yma.
- Tudalen 5: Cadarnhawyd bod y ddau risg ychwanegol a gafodd eu nodi gan Aelodau'r Bwrdd yn ystod cyfarfod mis Mawrth wedi'u hychwanegu i'r Gofrestr Risgiau.
- Tudalen 6: Mae'r dyddiadau hyfforddiant ychwanegol mewn perthynas â'r fframwaith gwybodaeth a dealltwriaeth a gafodd eu nodi yn ystod cyfarfod mis Awst bellach wedi'u hychwanegu i'r gofrestr.
- Tudalen 8: Cadarnhawyd bod canlyniadau Arolwg y 'Rheolydd Pensiynau' wedi cael eu rhannu a bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn rhannu'r manylion â'r Aelod newydd o'r Bwrdd, Ms Absalom.

*Dolen i gofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn*:

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y strategaeth gyllido a'r strategaeth weinyddu wedi cael eu rhannu ag Aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ym mis Mehefin;
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fanylion sesiwn datblygu dysgu Baillie & Gifford.

*Dolen i Bartneriaeth Pensiwn Cymru:*

- Tudalen 14: Rhannodd y Cadeirydd y manylion diweddaraf ynghylch y materion a gafodd eu trafod yn ystod y cyfarfod diwethaf.

**16 PANEL YMGYNGHORI – BUDDSODDI A GWEINYDDU**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad mewn perthynas â chofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghori a Buddsoddi - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gynnal ar 27 Medi 2021.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys bod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi cynyddu o £4,493 miliwn (31 Mawrth 2021) i £4,725 miliwn (30 Mehefin 2021). Enillion cyffredinol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2021 oedd 21.2%, gan ragori ar feincnod penodol y cynllun, sef 14.9%.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at ffigurau cyflawniad tair blynedd y rheolwyr Gweithredol a nodwyd bod Strategaeth Baillie Gifford yn parhau i fod yn gadarn. Cyfeiriwyd Aelodau'r Bwrdd hefyd at gyflwyniad gan Blackrock a CBRE.

O ran sgiliau a gwybodaeth, cafodd yr Aelodau wybod ei bod hi'n bosibl y bydd angen cyfuno cofnod hyfforddiant Pwyllgor y Gronfa Bensiwn â

chofnod hyfforddiant Aelodau'r Bwrdd yn y dyfodol. Nodwyd bod y Cynghorydd Hooper bellach yn Aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn yn dilyn y newid i gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr wybodaeth ddiweddaraf â'r Bwrdd o ran trefniadau llywodraethu a Chofrestr Risgiau'r Gronfa. Doedd dim rheolau wedi'u torri.

O ran adroddiad gweinyddu'r Cyfarwyddwr Materion Cyllid a Gwasanaethau Digidol, cafodd yr Aelodau wybod bod datrysiadau McCloud yn parhau i gael eu trafod yn y Senedd a phwysleisiwyd y byddai Aelodau'r Bwrdd yn parhau i dderbyn y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r maes yma wrth iddo ddatblygu. Cadarnhawyd hefyd bod carfan prosiect bellach wedi'i sefydlu yn RhCT i fonitro a gweithredu datrysiadau fel y bo'n addas, gyda chymorth Cyflogwyr y Gronfa.

O ran gweithdrefnau diwedd flwyddyn, nodwyd bod y Datganiadau Buddion Blynyddol (gweithredol a'r rhai sydd wedi'u gohirio) wedi'u cyhoeddi cyn y dyddiad cau statudol sef 31 Awst.

O ran Ansawdd Data, nododd Aelodau'r Bwrdd nad oedd diweddariad o safbwynt Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol hyd yn hyn a bod cydymffurfiaeth barhaus y Gronfa â gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn cael eu cefnogi gan garfan rheoli gwybodaeth y Cyngor

Aeth y Bwrdd hefyd ati i nodi a thrafod y cynnydd o ran gweithredu I-connect.

Yna cyfeiriwyd Aelodau o'r Bwrdd at y cyflawniad yn erbyn safonau gwasanaeth allweddol y Gronfa.

Rhannodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â chyfarfod Cadeiryddion Partneriaeth Pensiwn Cymru a gafodd ei gynnal ar 22 Hydref 2021 â'r Aelodau. Cafodd yr Aelodau wybod bod Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru bellach ar y wefan a bydd y broses penodi Aelodau newydd o'r cynllun ar waith o fis Ebrill 2022.

Cafodd yr Aelodau wybod hefyd bod y gronfa wedi cyflwyno cais am wobr yn rhan o gategori 'gronfa'r flwyddyn' gwobrau Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdodau Lleol ond rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod nad oedd y cais wedi cyrraedd y rhestr fer y tro yma.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNWYD** cydnabod yr wybodaeth sydd wedi'i diweddaru.

## 17 MONITRO RISG

Cafodd Aelodau o'r Bwrdd wybodaeth am asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac amlinelliad o'r mesurau rheoli sydd mewn grym.

Nododd yr Aelodau fod angen diweddaru tudalen 32 gan fod y risg bellach wedi cyrraedd y cam deddfwriaethol.

**PENDERFYNWYD** nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**18 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiynau Cymru.

**19 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr Aelodau at yr hyfforddiant a wnaed hyd yma gan y Bwrdd a'r cynllun hyfforddi ar gyfer mis Tachwedd 2019 i fis Mawrth 2020.

Cytunodd y Bwrdd i anfon rhestr o unrhyw ofynion hyfforddi y mae angen eu hychwanegu i'r rhestr ar sail barhaus.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth mewn perthynas â fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd.

**20 LLYWODRAETHU - DIWEDDARIAD O RAN COVID**

Rhoddwyd sicrwydd ar lafar i'r Bwrdd ynghylch y trefniadau Llywodraethu ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r ymatebion gweinyddu a amlinellwyd

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybod bod swyddogion Gwasanaeth Pensiynau RhCT bellach yn y swyddfa 2 ddiwrnod yr wythnos ac yn gweithio gartref y tu hwnt i hynny.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad.

**21 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL**

- *McCloud*

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion unwaith eto y bydd y Bwrdd yn derbyn diweddariadau cyson ar y mater yma

- *Adnewyddu Gwefan y Gronfa Bensiwn*

Rhoddodd Uwch Reolwr y Garfan Materion Digidol, Cyfathrebu a Llywodraethu gyflwyniad powerpoint mewn perthynas â gwefan newydd y Gronfa Bensiwn, sydd bellach yn fwy hygyrch. Cafodd Aelodau'r Bwrdd gyfle i weld yr hen wefan a'r wefan newydd. Cafodd y Bwrdd gyfle i weld swyddogaeth ddwyieithog cyfleuster hunan-wasanaeth 'Fy Mhensiwn Ar-lein'

- <u>*Pensiynwyr sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig*</u>

  Rhoddodd Uwch Reolwr y Garfan Materion Digidol, Cyfathrebu a Llywodraethu gyflwyniad powerpoint mewn perthynas â buddion pensiwn ar gyfer pensiynwyr sy'n byw tramor. Cafodd yr Aelodau drosolwg o'r system gyfredol a nodwyd camau nesaf y broses.

  Yn dilyn trafodaeth, **NODODD** Aelodau'r Bwrdd y diweddariadau yn unol â hynny.

**22 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHORFFORAETHOL**

Rhannodd yr Uwch Gyfrifydd Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys ddiweddariad ar lafar mewn perthynas â materion Llywodraethu Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chorfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau'r Bwrdd nodi'r diweddariad mewn perthynas â threfniadau llywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol.

**23 UNRHYW FATERION ERAILL**

- Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Bwrdd am y pwerau newydd sydd gan y Gronfa Bensiwn i wrthod ceisiadau am drosglwyddo arian er mwyn mynd i'r afael â sgamiau sy'n ymwneud â phensiynau. Holodd y Cadeirydd pa oblygiadau sy'n gysylltiedig â'r polisi yma, yn enwedig o ran rhwymedigaethau posibl. Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiweddariad mewn perthynas â'r goblygiadau a allai godi â'r Bwrdd.

- O ran yr Adroddiad Blynyddol, cafodd yr Aelodau wybod bod Adran y Cadeirydd wedi'i chwblhau a'i rhannu â'r Bwrdd yn unol â hynny.

- O ran yr arolwg a dderbyniwyd gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun, cafodd yr Aelodau wybod bod y Cadeirydd wedi cwblhau'r holiadur.

- Rhoddodd Ms Absalom wybod na fydd modd iddi fynychu cyfarfod y Bwrdd ar 24 Ionawr o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl a chytunwyd i aildrefnu'r cyfarfod ac anfon nodyn calendr newydd yn unol â hynny.

- O ran Rhaglen y Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod disgwyl i'r rhaglen 'fynd yn fyw' yn 2023, a hynny o ganlyniad i faint y gronfa.

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.14pm**

**Yr Athro H. COOMBS**
**CADEIRYDD.**

1

2